Crymych

Cynllun Gweithredu 2008

DIWYGIEDIG

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllunio

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN GWEITHREDU CYMUNEDOL DIWYGIEDIG

Ar gyfer Crymych

Paratowyd mewn cydweithrediad â

Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu

TABL CYNNWYS

CYNNWYS	TUD
Cefndir y Cynllun Gweithredu	1
Ardal y Cynllun Gweithredu	2
Hanes y Gymuned	3
Ymdeimlad o Le a Phobl	4
Y Darlun Ehangach	5
Crymych yn y Dyfodol	7
Rhoi'r Cynllun Ar Waith	8
Cyfleusterau Cymunedol	9
Gweithgareddau Cymunedol a Chyfathrebu	12
Yr Amgylchedd, Ynni ac Ailgylchu	16
Treftadaeth a Hanes	19
Busnes a Thwristiaeth	20
Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd	24
Tai a Gwasanaethau	26
Gweithredu / Gweithgorau	28

Cyfarfu cymuned Crymych ar Mehefin 11^{eg} 2008 adeg gweithdy cymunedol i adolygu'r Cynllun Gweithredu a dathlu llwyddiannau'r gorffennol. Ychwanegwyd nifer o gynigion newydd i'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys rhestr o'r llwyddiannau, a nodwyd cynnydd prosiectau sydd eisoes yn bodoli.

Cytunwyd y Cynllun Gweithredu Diwygiedig ar 8fed Medi 2008 yn dilyn cylchrediad o'r cynllun drafft i holl drigolion y gymuned.

Cefndir y Cynllun Gweithredu

Mae **CRYMYCH,** sy'n darparu ar gyfer anghenion masnachol, addysgol a diwylliannol y pentrefi a phentrefannau amgylchynol, yn gymuned sy'n ffynnu. Y mae hefyd yn borth i hanes ac amgylchedd bryniau'r Preselau, gan ddenu nifer o ymwelwyr sy'n cerdded neu'n teithio'r ardal leol.

Cwblhawyd Cynllun Gweithredu cyntaf Crymych yn 2003, yn dilyn gweithdai a chyfarfodydd cymunedol. Ers hynny, cyflawnwyd prosiectau arfaethedig a nifer o welliannau eraill drwy ymdrechion gwirfoddol a chymorth gan amrywiol asiantaethau ac awdurdodau.

Dyma'r prif gyflawniadau ers Cynllun Gweithredu 2003:

- Y Neuadd Farchnad – cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb o ran ei datblygu yn y dyfodol
- Lle Chwarae i Blant - ymgymerwyd â gwelliannau amgylcheddol
- Darparu meithrinfa - yn Ysgol y Frenni
- Clwb ar ôl ysgol - yn Ysgol y Frenni
- Canolfan gofal plant integredig – yn Ysgol y Frenni
- Criced – gosodwyd wiced 'astro-turf' yn Ysgol y Preseli
- Cynhaliwyd dau weithdy hanesyddol
- Mae ymchwil ar gyfer y daflen hanes ar waith
- Sefydlwyd grŵp cerdded - helpu i hwyluso'r mynediad i fryniau'r Preseli
- Teithiau cerdded a llwybrau treftadaeth – taflen 'Teithiau Cerdded y Frenni—Crymych
- Cyhoeddwyd Llwybr Cerdded Teithiau Cylch y Preseli a gwellwyd arwyddion
- Gŵyl Fwyd y Frenni - ehangwyd yr ŵyl i gynnwys crefftau lleol, cerddoriaeth Geltaidd, Jazz ac ati
- Cyhoeddwyd y Cyfeirlyfr Busnes Lleol
- Mynediad i Fand Llydan ar gael erbyn hyn
- Agorwyd man gwybodaeth i ymwelwyr yng nghyntedd y Neuadd Farchnad
- Lletyau i ymwelwyr - cynhaliwyd cwrs ar ddatblygu busnes

gwely a brecwast
- Cynhaliwyd cwrs hyfforddi ‘Winning Windows’ ar gyfer busnesau
- Cynhaliwyd taith archeolegol ‘Ymdeimlad o Le’ ar gyfer busnesau lleol
- Lluniwyd cynlluniau i wella’r pentref
- Cludiant cyhoeddus - mae bws y Ddraig Werdd yn dod i’r pentref erbyn hyn
- Cyfleusterau parcio – mae mwy o fannau parcio oddi ar y stryd ar gael erbyn hyn
- Parcio ar y stryd - gosodwyd terfynau amser ar gyfer parcio ar y Stryd Fawr
- Gweithredwyd rhai mesurau i ostegu traffig

Yn dilyn trafodaeth gyda grŵp llywio Cymdeithas Gymunedol Crymych a’r Fro, cytunwyd i ddiweddaru Cynllun Gweithredu 2003 drwy gynnal gweithdy cymunedol a hwyluswyd gan PLANED, ym Mehefin 2008. Fe wnaeth y gweithdy helpu trigolion o bob oed a thrigolion sydd â phob math o ddiddordebau i fwrw golwg ffres ar anghenion a dyheadau Crymych. Cofnodwyd eu syniadau a’u sylwadau a datblygwyd cynigion ar gyfer prosiectau er cynaladwyedd hirdymor y gymuned.

Fe wnaeth 17 o deuluoedd ymateb i’r holiadur cymunedol. Bu 12 ohonynt yn byw yn y gymuned ers dros 16 mlynedd, a 5 yn byw yno rhwng 6 a 15 ymlynedd. Ni fu neb ohonynt fyw yn y gymuned am lai na 5 mlynedd. Rhesymau dros symud mewn i’r gymuned yn y lle cyntaf, ac eithrio cael eu geni yma oedd iymwneud â busnes/gwaith neu well ansawdd bywyd / lleoliad tawel, mwynderau da, ac ymddeoliad.

Ardal y Cynllun Gweithredu

Mae gan Grymych boblogaeth o dros 600 o bobl er bod ardal y cyngor cymunedol yn cynnwys dros 2000 o bobl sy’n byw mewn pentrefi a phentrefannau lleol; rhai ohonynt yn cynnwys 30 o bobl yn unig ar y gofrestr etholiadol. Mae dalgylch yr ysgol uwchradd yn cwmpasu ardal ehangach fyth.

Saif y pentref mewn man delfrydol ar ffordd yr A478 rhwng Arberth sydd tua phedair milltir ar ddeg i’r de, ac Aberteifi sydd tua naw

milltir i'r gogledd. Mae'r lleoliad canolog hefyd yn borth i fryniau'r Preselau. Mae'r golygfeydd yn odidog i bob cyfeiriad ac mae rhwydwaith o lwybrau yn arwain o ganol y pentref i'r ardal wledig amgylchynol.

Mae Crymych yn gwasanaethu cymunedau fel Blaenffos, Hermon a Llanfyrnach ac mae'n bentref sydd yn cynnig cryn dipyn o gyfleoedd gwaith sef swyddfeydd, canolfan iechyd, heddlu, cyfleuster ymateb cyntaf a gwasanaethau tân, yn ogystal â gorsaf betrol, amrywiaeth dda o siopau bach, swyddfa bost a llyfrgell, ynghyd ag ysgolion cynradd ac uwchradd rhagorol. Mae yna hefyd ganolfan addysg gymunedol, theatr a chanolfan hamdden sy'n cynnwys pwll nofio, ar safle'r ysgol uwchradd. Mae yna hefyd dau gapel, clwb a chae rygbi, dau gaffe/lleoedd prydau parod, siop pysgod a sglodion, bwyd Tsieineaidd, a thŷ tafarn y Crymych Arms.

Mae busnesau'n amrywio o fenter cyfrifiaduron yn y cartref i gwmnïau cludiant ar raddfa ryngwladol. Mae yna farchnad anifeiliaid a dwy stad ddiwydiannol fach.

Mae'r iaith a'r diwylliant Cymreig yn gadarn ac mae'r dreftadaeth a'r dirwedd yn nodweddion sy'n denu nifer o wahanol fathau o bobl, felly'n creu cymuned sy'n amrywiol a diddorol.

Mae natur newidiol yr economi leol, costau tai a phryderon am gyflogaeth yn awgrymu y bydd cynigion y Cynllun Gweithredu yn helpu i gynnal ansawdd bywyd ac iechyd y bobl sy'n byw yma.

Hanes y Gymuned

Mae yna dystiolaeth archeolegol bod pobloedd yr hen fyd wedi adeiladu ar y Frenni Fawr a Foel Drigarn yn ystod yr Oes Efydd a'r Oes Haearn. Ceir tystiolaeth bod yna weithgaredd Rhufeinig yn yr ardal, sef Ffordd Fflemin sy'n rhedeg ar hyd y Preselau o Grymych i Frynberian ac yn cysylltu gyda'r ffordd i Hermon. Mae yna olion Capel yng Nghastellan sydd hefyd yn arwydd o weithgaredd Canoloesol.

Mae nifer o enwau lleoedd yn yr ardal yn awgrymu cysylltiad â Marchogion y Deml yn yr ardal. Cyfarfu tri phlwyf hynafol Llanfair Nantgwyn, Penrith a Llanfyrnach yng Nghrymych. Gan nad oedd yn blwyf nodwyd mohono ar fap Sir Benfro 1610 John Speed, er bod plwyfi Monachlogdee, Whitchurch a Llanunrnach wedi eu nodi. Mae mapiau'r Degwm o'r 1830au a'r 1840au yn cofnodi enwau tri annedd, sef Henffordd, Bwlchclawdd a Crymmych Arms.

Credir bod y Porthmyn wedi dewis Crymych fel man cyfarfod oherwydd ei leoliad lle'r oedd chwe hen ffordd yn cyfarfod mewn bwlch naturiol rhwng y Frenni Fawr a bryniau Foel Drigarn. Yma y daeth y Crymych Arms yn arhosfan ar reilffordd y Cardi Bach. Cwblhawyd y rhan gyntaf o Hendy-gwyn i Grymych ym 1876, ond ni agorwyd yr estyniad i Aberteifi tan 1886. Datblygodd pwysigrwydd y farchnad anifeiliaid unwaith y sefydlwyd y cysylltiadau rheilffordd i'r ardaloedd diwydiannol. Tyfodd Crymych yn gyflym gyda sefydlu nifer o gwmnïau bychain ac yn arbennig gydag agor y banciau ar ddechrau'r 20fed ganrif.

Caewyd y rheilffordd yn 1962 ond roedd y pentref eisoes wedi dechrau bywiogi pan agorwyd Ysgol y Preseli yn 1958. Agorwyd mwy o siopau a busnesau a sefydlwyd yr Orsaf Dân.

Mae Crymych wedi parhau i dyfu'n raddol fel canolfan breswyl, addysgol a diwylliannol. Wrth ddatblygu mae'r pentref wedi addasu i wasanaethu ardal wledig gyfagos eang.

Ymdeimlad o Le a Phobl

Yn ystod y gweithdy creu gweledigaeth fe wnaeth trigolion nodi rhinweddau hanfodol Crymych, gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr ymdeimlad o gymuned glos a chymdogrwydd sydd yno. Mae'n teimlo'n ddiogel ac mae yna lefel isel o drosedd.
Mae ei drigolion yn gyfuniad o deuluoedd sydd â gwerthoedd traddodiadol a hunaniaeth ddiwylliannol gadarn a fu yno ers blynyddoedd ynghyd â phobl ifanc, ac eraill sy'n amlwg wedi canfod rhywbeth arbennig am y gymuned ac am roi cynnig ar ffordd o fyw amgenach. Rhywsut, mae'n cyfuno traddodiadau'r

capel, y tafarn a'r cae rygbi gyda'r cyfleusterau addysg a hamdden ddiweddaraf.

Cydnabuwyd lleoliad Crymych yn y Preselau, gyda'u golygfeydd godidog a'r awyr iach, glân yn ased arbennig iawn.

Mae hanes a threftadaeth yn gysylltiedig â'r dirwedd a gwerthfawrogir y ffaith bod yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn parhau'n ganolog i fywyd yno.

Mae nifer sylweddol o wasanaethau ar gael i drigolion, gyda dwy ysgol ragorol yn gwasanaethu'r ystod oedran cyfan, ac mae canolfan blant integredig sydd newydd agor yn darparu cyfleusterau meithrin a chlwb ar ôl ysgol. Yn ogystal â hyn, cynhelir ystod eang o weithgareddau, dan ofal amrywiol glybiau, mudiadau a'r ganolfan addysg gymunedol. Cynhelir rhai yn y Neuadd Farchnad lle cynhelir marchnad reolaidd ar ddydd Sadwrn a gwerthir celfi yno hefyd o bryd i'w gilydd.

Y Darlun Ehangach

Yn ystod y gweithdy cymunedol a gynhaliwyd ym Mehefin 2008, edrychodd y cyfranogion ar effaith y byd ar Grymych ac effaith

Crymych ar y byd.

Un o'r pryderon cyffredin a fynegwyd gan y grwpiau oedd yr angen i gefnogi gwasanaethau, busnesau a chynhyrchwyr lleol. Soniwyd nad oedd y banciau a fu unwaith yng Nghrymych yno bellach, ac ar un adeg roedd hi'n bosib prynu popeth a oedd ei angen yng Nghrymych.

Mae'r ffaith bod busnesau mawr yn dueddol o wthio'r busnesau bach allan yn creu ymdeimlad o rwystredigaeth, ac mae'r archfarchnadoedd yn benodol, yn gwthio'r siopau lleol allan. Yr un yw'r pryderon ynghylch pa mor bell mae'n rhaid i fwyd deithio ar draws y byd pan fod gennym y gallu i gynhyrchu cyfran fawr ohono ein hunain - fe wnaeth pump allan o'r chwe grŵp ddewis y cerdyn hwn.

Fe wnaeth un grŵp amlygu ein cyfrifoldeb i ddiogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fe nododd un arall y byddai cadw a hyrwyddo busnesau lleol yn arbed ynni ac adnoddau a gwella ansawdd bywyd i bawb.

Canfuwyd cyswllt rhwng effaith diet gwael ar ymddygiad plant â'r cyfanswm yr ydym yn ei wario ar brydau parod, gyda grwpiau'n awgrymu bod angen anogaeth i gynhyrchu mwy o gynnyrch cartref.

Mae'r pellter yr ydym yn teithio mewn car ac awyren, ynghyd ag agweddau at drafnidiaeth – y ffaith bod mwy na 80% o bobl o'r farn bod yna ormod o geir ar y ffordd, ond bod 65% yn teithio i'r gwaith neu'r ysgol mewn car – hefyd yn faterion sy'n achosi pryder.

Fe wnaeth y cyfranogwyr gysylltiadau eraill â'r amgylchedd: dywedodd un grŵp 'rydym yn cymryd gormod allan o'r byd heb roi digon yn ôl. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r rhywogaethau sy'n diflanni, ac effaith ein gweithredoedd ar yr amgylchedd'. Beirniadwyd cyfanswm y gwastraff, yn enwedig costau deunydd pacio o'r archfarchnadoedd ar ffaith bod angen mynd i gostau pellach i waredu arno, a chyfanswm y ffrwythau a'r llysiau a deflir i

ffwrdd gan amaethwyr oherwydd bod archfarchnadoedd yn eu gwrthod ar sail esthetig.

Crymych yn y Dyfodol

Mae gan drigolion lleol weledigaeth ar gyfer y dyfodol - Crymych fel y mae, ond yn well! Byddai'r ysbryd cymunedol cadarn a'r cymdogrwydd yn parhau i dyfu, gan groesawi ystod eang o bobl, a denu gwahanol sgiliau a phrofiadau i'r gymuned. Adeg y gweithdy, ystyriwyd 'parch tuag at bobl a'r amgylchedd' yn hynod bwysig.

Mae'r weledigaeth ar gyfer Crymych yn cynnwys syniadau am 'neuadd gymunedol fywiog' yn cynnwys yr holl glybiau a chymdeithasau presennol, ynghyd â chyfleusterau ar gyfer 'clwb ieuenctid agored', celfyddydau creadigol a chaffe rhyngrwyd. Mae canolfan treftadaeth ac oriel arddangos yn parhau i fod yn eitemau amlwg ar yr agenda.

Byddai'r pentref yn cael 'gweddnewidiad', gan fynd i'r afael ag unrhyw hyllbethau er mwyn sicrhau ansawdd bywyd da i bobl leol a chroesawi ymwelwyr. Byddai angen gwella cyfleusterau ailgylchu er mwyn osgoi defnyddio tanwydd i deithio i fannau eraill.

Byddai'r economi leol yn parhau i ddatblygu, gyda diwydiannau traddodiadol fel ffermio yn gweithio ochr yn ochr â sector dwristiaid sy'n ehangu. Ystyriwyd bod cydbwyso hyn wrth ddiogelu'r amgylchedd hefyd yn bwysig. Crybwyllwyd hefyd, fusnesau sy'n canolbwyntio ar gynnyrch lleol, siopau bach cynaliadwy a mwy o fasnachu, gyda'r nod o fod mor hunangynhaliol â phosib a darparu swyddi lleol i bobl leol.

Byddai 'Canolfan Groeso ystyrlon' yn darparu ar gyfer amrywiol anghenion ymwelwyr gyda phwyslais cryf ar ddehongli treftadaeth a'r amgylchedd lleol. Roedd yna gryn ddiddordeb mewn cerdded, beicio a gadael y car ar ôl wrth fentro allan i gefn gwlad. Roedd 'teithiau cerdded oddi ar y ffordd' ar yr hen reilffordd a 'llwybr beicio' ymhlith yr awgrymiadau a ddaeth i law.

Cafwyd awgrymiadau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau eraill, o drac rali a pheledu paent i sba a pharc hamdden. Ymhlith yr awgrymiadau fwyaf tebygol o gael eu cyflawni, oedd bowlio, ffitrwydd a nofio am ddim.

Byddai rhaid gosod rheolaeth lem ar draffig yn y pentref a byddai palmant i Flaenffos yn galluogi pobl i gyflawni '10,000 o gamau dyddiol' heb unrhyw broblem, hyd yn oed ar nosweithiau tywyll gaeafol!

Roedd yna ymdeimlad o beidio â gadael i'r pentref dyfu'n fwy neu fe fyddai'n 'dyfod yn dref gyda'i holl broblemau.' Serch hynny cydnabyddir bod angen tai fforddiadwy er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc. Yn ogystal â hyn, mae yna angen am ofal a llety i'r henoed a chanolfan iechyd modern i ddarparu ar gyfer pob oedran.

Fel y dywedodd un cyfranogwr adeg y gweithdy 'mae gennym le aruthrol' ac mae yna ymdeimlad bod angen gwneud y gorau ohono. Byddai pawb yn mwynhau ansawdd bywyd da, byddai busnesau lleol yn derbyn cefnogaeth frwd a byddai modd gwneud defnydd da o gynnyrch lleol. Byddai ymwelwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi a byddai pobl ifanc yn parhau i fyw yn y man lle'u ganwyd gydag amrywiaeth o waith a chyfleoedd yno ar eu cyfer.

Rhoi'r Cynllun Ar Waith

Mae'r gymuned yn weithgar iawn, gyda Chyngor Cymuned gadarn iawn a Chymdeithas Gymunedol Crymych a'r Fro a sefydlwyd yn ddiweddar, a fydd yn cymryd yr awenau yn nhermau rhedeg y Neuadd Farchnad fel cyfleuster cymunedol. Gyda chynrychiolwyr o'r cyngor ac amrywiol grwpiau yn y gymdeithas, dyma'r corff delfrydol i yrru cynigion y cynllun gweithredu yn eu blaenau, gan gynnwys pobl o bob oed a phobl ag amrywiol ddiddordebau. Mae asiantaethau cyllido angen tystiolaeth o gyfraniad cymunedol ac mae Cynllun Gweithredu a hyrwyddir gan Gymdeithas Gymunedol yn ddelfrydol.

Bydd PLANED a phartneriaid allweddol yn helpu i weithredu'r Cynllun Gweithredu. Gyda'i gilydd maent yn medru cynnig cymorth arbenigol a chyllid ar gyfer prosiectau, gan gynnwys gwelliannau, cadwraeth amgylcheddol a dehongli hanes lleol.

Mae materion a godwyd adeg y gweithdai wedi cael eu grwpio i chwe thema eang yn y Cynllun Drafft hwn. Lle'n briodol mae ganddynt gysylltiad â safleoedd penodol sydd â chynigion penodol. Hefyd wedi eu cynnwys, mae'r cynigion hynny yng Nghynllun Gweithredu 2003 a ystyrir yn berthnasol o hyd.

Cyfleusterau Cymunedol

Sylwadau
Mae cyfleusterau Crymych yn cynnwys y Neuadd Farchnad a safle Ysgol y Preseli sy'n gartref i'r ganolfan ddysgu gymunedol, canolfan hamdden a theatr. Mae gan fudiad Menter Iaith ganolfan yng Nghrymych. Ymhlith y mannau cyfarfod eraill mae'r Clwb Rygbi a thafarn y Crymych Arms ac ymhlith y mannau awyr agored mae cae chwaraeon Lloyd Thomas, lle chwarae i blant ac mae yna gae criced yn Glandy Cross.

Mae Ysgol y Preseli yn darparu ar gyfer pob oedran, ynghyd â chanolfan addysg gymunedol. Ymhlith y cyfleusterau eraill ar y safle mae theatr, pwll nofio a chanolfan hamdden, sy'n gwasanaethu dros 1000 o bobl yr wythnos. Ystyrir y safle ymhlith y pump gorau yng Nghymru. Mae gan y cyfleusterau adnoddau da iawn ond mae yna ddiddordeb i ddatblygu ardal chwaraeon aml-ddefnydd ar gyfer hoci a chwaraeon eraill.

Er bod yna ddefnydd da o'r Neuadd Farchnad, mae pobl leol yn cydnabod bod angen ei moderneiddio er mwyn darparu cyfleuster aml-ddefnydd i ddiwallu anghenion ystod eang o ddefnyddwyr.

Mae'r gweithgareddau presennol a gynhelir yno yn cynnwys Clwb Cinio, bowlio dan do, grŵp 'Weight Watchers', arwerthiannau cist car, arwerthiant celfi rheolaidd ac amrywiol ddigwyddiadau cymdeithasol. Mae'r neuadd yn medru dal 249 o bobl ar eu heistedd ac mae lle i 450 sefyll.

Yng Nghynllun Gweithredu 2003 fe wnaeth y trigolion grybwyll astudiaeth achos i archwilio'r potensial i gynyddu'r lle sydd yn y neuadd a diweddaru'r mynediad, toiledau a chyfleusterau'r gegin er mwyn ystyried anghenion defnyddwyr eraill. Roedd yna ddiddordeb brwd i wella'r system wresogi a gwasanaethau eraill, er mwyn annog cynaladwyedd ac effeithlonrwydd ynni.

Wedi hynny, cynhaliwyd astudiaeth gynhwysfawr gan Benseiri Acanthus Holden.

Fe wnaeth y gymuned helpu i lunio'r briff ac roeddent am:

- Ddarparu man cyfarfod parhaol.
- Darparu man arddangos barhaol i hysbysebu digwyddiadau lleol.
- Cyfleuster sy'n darparu gwybodaeth i ymwelwyr.
- Canolfan treftadaeth a chrefftau.
- Man i arddangos arteffactau.
- Ffocws ar gyfer sgiliau cefn gwlad.
- Portreadu treftadaeth ddiwylliannol Crymych a'r fro, gan gynnwys ei gelfyddydau, iaith, llenyddiaeth, barddoniaeth, theatr a cherddoriaeth.

Fe wnaeth y penseiri gynnal arolygon ac ymgynghori â'r gymuned wrth iddynt ddatblygu eu syniadau. A'r canlyniad, cynllun i ddiweddaru'r Neuadd Farchnad heb ei weddnewid yn allanol. Yn ogystal â'r lle sydd yn y neuadd ei hun, mae'r newidiadau i'r llawr gwaelod yn cynnwys lifft a chyfleusterau i'r anabl. Bydd yna le mewn ystafell gyfarfod newydd i 35 o bobl; mae yna hefyd le i

ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr ac arddangos hysbysiadau cyhoeddus, ynghyd â storfa neu wagle ar gyfer swyddfa fach.

Y bwriad yw creu llawr cyntaf i gynyddu hyblygrwydd yr adeilad a byddai hefyd yn cynnwys ystafell gyfarfod bellach a lle hyblyg i gynnal arddangosfeydd a fyddai hefyd yn cynnwys seddau ar gyfer perfformiadau bach. Mae'r cynlluniau'n cynnwys 'bythau' a fyddai'n galluogi crefftwyr lleol i arddangos eu gwaith. Mae yna le awyr agored ar gyfer arddangosfeydd mawr e.e. seiri troliau.

Byddai angen cynnal gwaith i atal problemau lleithder a byddai angen ffenestri a tho newydd. Byddai system eothermol gyda thyllau turio yn darparu gwres islawr. Mae'r gost a amcangyfrifir ar gyfer y gwelliannau bron yn £700,000 felly mae angen rhaglen gynhwysfawr i godi arian. Mae cwmni'r Neuadd Farchnad wedi addo swm sylweddol i roi'r broses ar ben ffordd.

Mae yna ddiddordeb i ddatblygu cyfleuster canolfan ddydd integredig ar gyfer pobl hŷn. Gallai hyn fod yn rhan o fenter tai arfaethedig (gweler '*Tai a Gwasanaethau')*

Ychydig i'r dwyrain o'r stryd fawr, mae yna lwybr sy'n torri trwodd i'r maes parcio di-dâl lle ceir hyd i'r maes ailgylchu. Gerllaw, mae yna le chwarae a ailwampiwyd yn ddiweddar a thu hwnt iddo mae cae Lloyd Thomas, sef cae Clwb Rygbi Crymych.

Cynigion

- Ffurfio Cymdeithas Gymunedol Crymych a'r Fro – cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Cychwynnol ar 8 Medi 2008 – annog unigolion a grwpiau ehangach i ymaelodi.
- Symud ymlaen ag Astudiaeth Dichonolrwydd y Neuadd Farchnad

- Hyrwyddo'r Neuadd Farchnad a chynlluniau i ddarparu man cyfarfod cynnes a chyffyrddus gydag amrywiaeth o gyfleusterau, o wybodaeth i ymwelwyr i leoedd arddangos a lle i arddangos crefftau.
- Ymweld â neuaddau eraill a ailwampiwyd ee Maenclochog, a chyfarfod â'r pwyllgor i gasglu syniadau ar gyfer adfywio'r cyfleuster.
- Dechrau ymgyrch codi arian a dod o hyd i gyllid allanol.
- Gweithio gyda grwpiau gweithgareddau (gweler yr adran nesaf) i archwilio cyfleoedd a syniadau ar gyfer datblygu mwy o weithgareddau codi arian ar gyfer cynnal a chadw.
- Archwilio i'r cynnig am ardal chwaraeon aml-ddefnydd yn Ysgol y Preseli.
- Archwilio i'r cynnig am ganolfan ddydd integredig i bobl hŷn (*gweler yr adran Dai*).

Gweithgareddau Cymunedol a Chyfathrebu

Sylwadau
Mae Crymych yn enwog am ei amrywiaeth enfawr o fudiadau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer pobl sydd ag ystod eang o ddiddordebau a sgiliau. Mae ei leoliad daearyddol yn darparu ffocws naturiol ar gyfer pentrefi amgylchynol a theithia pobl o fannau mor bell ag Abercych yn y dwyrain a Threfdraeth yn y gorllewin i fynychu cyfarfodydd, dosbarthiadau a digwyddiadau.

Mae gan y ganolfan addysg gymunedol a'r ganolfan hamdden ystod eang o ddosbarthiadau a gweithgareddau a chyhoeddir y rhain mewn rhaglen flynyddol gynhwysfawr. Byddai ardal chwaraeon aml-ddefnydd yn Ysgol y Preseli yn ychwanegu at hyn.

Mae gŵyl fwyd flynyddol y Frenni bellach yn atyniad sy'n denu ymwelwyr yn ogystal â phobl leol, ac mae'n gyfle i grwpiau lleol ac unigolion arddangos eu cynnyrch a'u sgiliau. Mae yna ddiddordeb i ddatblygu mwy o wyliau a digwyddiadau i hybu'r economi leol a chynnwys ystod o bobl ym mywyd y gymuned. Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd carnifal, adfywio'r sioe flynyddol, gŵyl gefeillio a thriathlon (cynhelir rasys dros y mynyddoedd bob

blwyddyn).

Cynhelir amrywiol weithgareddau yn y Neuadd Farchnad ond mae yna sgôp i ddatblygu nifer fwy ac mae hyn yn agwedd angenrheidiol o strategaeth ailwampio cyffredinol y neuadd. Rhaid i'r neuadd godi digon o arian i'w gwneud yn ganolfan gymunedol fywiog a chynaliadwy.

Fel rhan o weithredu cynigion yr Astudiaeth, mae Cwmni'r Neuadd Farchnad wedi cynnig y neuadd i'r gymuned ac mae prydles yn y broses o gael ei llunio er mwyn i Gymdeithas Gymunedol Crymych a'r Fro gymryd yr awenau. Fe'i gelwir yn Ganolfan Gymunedol a Threftadaeth y Frenni. Gofynnwyd i'r ysgolion gynllunio logo priodol.

Bydd hyn yn annog ystod ehangach o aelodau'r gymuned i gymryd rhan a sicrhau dyfodol cynaliadwy i adnodd cymunedol sydd mor hynod o werthfawr. Gorau po fwyaf y grwpiau a'r mudiadau fydd am fuddsoddi, er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn llwyddiant. Mae angen codi arian sylweddol i gyfateb â'r arian a ddiogelwyd gan ffynonellau allanol er mwyn cynnal gwelliannau arfaethedig i'r neuadd. Mae yna ddiddordeb i ddarparu mwy o weithgareddau a chyfleoedd yn y neuadd.

Adeg cyfarfod cymunedol agored a gynhaliwyd i drafod dyfodol y Neuadd Farchnad, fe wnaeth pobl leol nodi'r gweithgareddau a'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer y neuadd.

Ymhlith yr awgrymiadau cafwyd:

- Sgowtiaid
- Aerobeg
- Salsa / Roc a Rôl
- Dosbarthiadau Hanes Lleol
- Sideru
- Tai Chi
- Rygiau Rhacs
- Cwiltio â llaw
- Crefftau siwgr
- Clytweithio

- Dawnsio Disgo
- Noson Gemau
- Gymnasteg
- Clwb Garddio
- Grŵp Drama
- Bingo
- Marchnadoedd gwledig
- Gwneud Cardiau
- Dawnsio Tap
- Gwniadwaith
- Paentio Dyfrlliw ac arlunio
- Celfyddyd Blodau
- Creu Gemwaith
- Dosbarthiadau Ffotograffiaeth i Bobl Ifanc
- Hunanamddiffyn e.e. karate
- Dosbarthiadau Gwneud Basgedi

Daeth cynigion i law i gynnal dosbarthiadau dawns a drama, clwb ieuenctid, dosbarthiadau crosio a thenis bwrdd. Mae yna gryn ddiddordeb i gynnal marchnad amaethwyr neu farchnad wledig a chynigiwyd cefnogaeth i'w sefydlu. Mae yna hefyd gefnogaeth i ffurfio grŵp crefftau a rygiau rhacs gan ddefnyddio defnyddiau a ailgylchwyd. Mae datblygu mwy o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn darged pendant. Awgrymwyd gweithdai i bobl ifanc a fyddai'n darparu ar gyfer pobl ifanc 11 i 18 oed, ac yn cynnwys amrediad eang o bynciau, o hunanamddiffyn i gelf, dawnsio disgo a reslo.

Mae rhieni wedi cynnig help i'w sefydlu ond mae angen cymorth proffesiynol gan Wasanaeth Ieuenctid y Sir ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Byddai angen codi arian a chyhoeddusrwydd er mwyn codi proffil y prosiect ac annog cyfranogiad pobl ifanc a'u teuluoedd. Dengys ymchwil bod cyfranogiad pobl ifanc mewn cymunedau gwledig yn hanfodol ar gyfer cynaladwyedd cymdeithasol ac economaidd. Mae adroddiad gan y Comisiwn Cymunedau Gwledig yn datgan bod yna 400,000 yn llai o bobl 15 i 29 oed yn byw ym Mhrydain wledig o gymharu ag 20 mlynedd yn ôl. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnig i archwilio'r opsiynau tai ar gyfer pobl ifanc (*gweler yr adran Tai a Gwasanaethau).*
Mae'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu bod gan bobl ddiddordeb i edrych ar ôl eu hiechyd. Y ffordd fwyaf poblogaidd o wneud ymarfer corff yw cerdded a garddio, er bod rhai'n manteisio ar y ganolfan hamdden ar gyfer nofio, ac eraill yn bowlio a seiclo.

Rhesymol yw'r cyfathrebu yng Nghrymych ond mae modd ei wella.

Mae dulliau cyfathrebu ar lafar, hysbysfyrddau a'r wasg leol yn ddefnyddiol ond mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer man dynodedig yn y Neuadd Farchnad ac mae yna ddiddordeb i ddechrau cylchlythyr cymunedol dwyieithog a datblygu gwefan y gymuned ymhellach er mwyn darparu'r newyddion diweddaraf. Ystyrir gwella cyfathrebu yn allweddol o ran hyrwyddo prosiect y Neuadd Farchnad a sicrhau bod pawb yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol cyffredinol. Awgrymwyd 'cyfleuster wybodaeth rhyngweithiol' fel modd o gydlynu yn ogystal â hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau lleol.

Cynigion

- **Sefydlu Grŵp Gweithgareddau'r Neuadd Farchnad** i drefnu arolwg gweithgareddau ehangach a nodi'r math o adnoddau sydd eu hangen e.e. offer bowlio, matiau ar gyfer gymnasteg ac ati
- ***Neu* ailsefydlu Mudiad Adloniant Crymych** (MAC) - byddai'r Neuadd Farchnad yn ganolfan ddelfrydol ar gyfer y mudiad hwn
- **Gweithredu'r cynigion ar gyfer treftadaeth a thwristiaeth** a wnaethpwyd yn Astudiaeth Dichonolrwydd y Neuadd Farchnad
- **Gwneud y mwyaf o sgiliau ac adnoddau lleol** i ehangu rhaglen y Neuadd farchnad e.e. a oes rhywun sy'n fodlon rhannu eu sgil – p'un ai'n Addurno Cartref neu yoga?
- **Sefydlu gweithdai i bobl ifanc**. Ceisio help gan y Gwasanaeth Ieuenctid ac Ymddiriedolaeth y Tywysog i ystyried opsiynau ar gyfer gweithgareddau/prosiect ehangach.
- **Edrych ar ffyrdd ychwanegol o gynnwys pobl ifanc** ym mywyd y gymuned e.e. drwy gynrychiolaeth ar y Cyngor Cymuned neu Gymdeithas Gymunedol
- **Cynnal cyfarfod i fesur y diddordeb** mewn grŵp Cylchlythyr Cymunedol dwyieithog.
- **Archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu gwefan cymuned Crymych**.
- **Creu cyfleuster gwybodaeth rhyngweithiol** – i alluogi pobl i drefnu digwyddiadau'r dyfodol ymlaen llaw.

Yr Amgylchedd, Ynni ac Ailgylchu

Sylwadau
Mae Crymych wedi manteisio ar welliannau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cafwyd help gan Gyngor y Gymuned – mae llecyn a blannwyd ger Neuadd y Farchnad yn ganolbwynt a chafwyd gwelliannau i'r lle chwarae a'r parc yn ddiweddar o ganlyniad arian a ddaeth i law gan yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy PLANED. Mae siopwyr a thrigolion yn gofalu am eu heiddo ac yn creu arddangosfeydd blodeuol sydd yn ychwanegu at olwg deniadol y stryd.

Mae yna ddiddordeb pellach i wella'r ardal o gwmpas y farchnad a'r maes parcio a gwella mynedfeydd y pentref. Awgrymwyd 'gweddnewid' y pentref er mwyn bywiogi ei ddelwedd ac annog mwy o ymwelwyr i alw a mwynhau'r siopau a'r gwasanaethau. Awgrymwyd cystadleuaeth Crymych yn ei Flodau fel modd o annog balchder yn y gymuned.

Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi lleoliad ysblennydd Crymych ymysg bryniau'r Preselau. Ystyrir hyn yn fantais bendant o ran byw yn yr ardal. Dengys ymchwil twristiaeth mai bywyd gwyllt, tirwedd, treftadaeth a chyfleoedd i gerdded yw'r prif atyniadau sy'n denu pobl i Sir Benfro. Mae gan Grymych bob un ohonynt!

Mae eco dwristiaeth yn fenter ddichonadwy yn yr ardal - gan wneud y gorau o'i holl adnoddau naturiol heb eu cyfaddawdu.

Mae datblygiad llwybr cerdded Y Frenni a Thaith Gylch y Preseli ynghyd â'u taflenni cysylltiol yn cyfrannu at hyn, yn yr un modd ag y mae gwasanaeth bws y Ddraig Werdd, sy'n gostwng siwrneiau car ac yn ei dro, allyriadau carbon.

Cydnabyddir bod modd manteisio ymhellach ar y ffaith bod Crymych yn borth i

fryniau'r Preselau o safbwynt cerddwyr a marchogwyr. Roedd Gŵyl Gerdded y Preseli yn 2008, a wnaeth gysylltu gwyliau lleol â theithiau cerdded tywysedig yn llwyddiant aruthrol, ac mae cyhoeddi llwybrau marchogaeth a phecyn gwybodaeth yn gam arall. Mae'r fath adnoddau yn agor drysau newydd i ymwelwyr a darparwyr llety e.e. darparu lifrai ar gyfer pobl sydd ar wyliau marchogaeth.

Mae amgylcheddwyr lleol yn helpu i gadw'r ardal yn arbennig ac mae yna ddiddordeb i ddatblygu hyn ymhellach. Ymhlith y diddordebau eraill mae dehongli daearyddiaeth leol a garddio. Byddai modd ffurfio grŵp amgylcheddol cyfunol i ddatblygu'r holl ddiddordebau a'r syniadau uchod.

Mae rheoli sbwriel yn y pentref yn achosi pryder. Un syniad yw peidio â defnyddio bagiau plastig. Er mwyn codi ymwybyddiaeth bydd y ffilm 'Neges yn y Tonnau' sy'n dangos y niwed y mae plastig yn ei wneud i fywyd gwyllt, yn cael ei dangos.

Mae cyfleusterau ailgylchu yn rhan allweddol o warchod yr amgylchedd. Mae trigolion yn frwd dros ailgylchu a chompostio cartref. Hoffent weld mwy o gyfleusterau ailgylchu eang yng Nghrymych. Ar hyn o bryd mae yna ardal fach yn y maes parcio *(darlun*) ac mae Safle Mwynder Dinesig yn Hermon, ryw ddwy filltir i ffwrdd. Mae'r cynllun 'bag oren' a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir yn ddiweddar yn boblogaidd ond gellid ei ehangu i gynnwys mwy o gynnyrch plastig.

Mae yna hefyd ddiddordeb i ddefnyddio defnyddiau a ailgylchwyd i greu crefftau ee rygiau rhacs. Mae gweithdai yn un o'r gweithgareddau newydd a grybwyllwyd ar gyfer y Neuadd Farchnad.

Mynegwyd diddordeb adeg y gweithdy cymunedol i ddatblygu cyfleoedd i harneisio ynni naturiol, gan gynnwys pŵer gwynt. Mae'r ysgol gynradd yn defnyddio system i gasglu dŵr glaw, a boeler peledi coed i wresogi, ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer gwres geothermol pan gaiff y Neuadd Farchnad ei hailwampio. Mae yna ddiddordeb i gorffori egwyddorion cynaliadwy drwyddi draw - o dai i gludiant.

Cynigion

- **Fforwm Cymunedol i gefnogi gwelliant pellach** yn y pentref a gweithio gyda chyngor y gymuned, y Cyngor Sir ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni hyn.
- **Ffurfio Grŵp Garddio/Amgylcheddol** i ddarparu gweithgareddau sy'n ymwneud ag ystod o agweddau gan gynnwys bioamrywiaeth leol, hawliau tramwy cyhoeddus, ynni ac ailgylchu.
    - ◊ Annog ymdeimlad o gyfrifoldeb i ofalu am yr amgylchedd naturiol ac adeiledig leol ac archwilio'r potensial ar gyfer cyfleoedd i gynnal gwelliannau.
    - ◊ Hyrwyddo Crymych sy'n rhydd o fagiau plastig, gan annog busnesau i ddefnyddio papur ac ati
    - ◊ Adolygu arfer ailgylchu i gynnwys gymaint o ddefnyddiau â phosib.
    - ◊ Adolygu effeithlonrwydd ynni ar lefel bersonol a chymunedol a chymryd camau i godi ymwybyddiaeth ac arbed ynni ymhob ffordd posibl.

Mae gan PLANED swyddog Gwerthfawrogi'r Amgylchedd sy'n gweithio gyda grwpiau amgylchedd lleol, gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys archwiliadau cynefinoedd a rhywogaethau. Bydd partneriaid yn darparu cyngor e.e. Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu cefnogaeth ynglŷn â materion hawliau tramwy. Mae amrywiol gyllid ar gael ar gyfer prosiectau amgylchedd yn y gymuned.

- **Hyrwyddo llwybrau cerdded y Frenni a'r Preseli** ac annog gwirfoddolwyr i arwain teithiau cerdded ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr (*gweler yr adran Treftadaeth).*

- **Dehongli daearyddiaeth leol** - angen ymgymryd ag ymchwil pellach, yn enwedig yr afonydd Tâf, Cleddau Dwyreiniol, Nyfer a Gafel.
- **Archwilio syniadau a chasglu gwybodaeth ynghylch ffynonellau ynni amgenach** gan gynnwys gwynt. Mae cymunedau eraill yn rhannu'r diddordeb hwn ac mae help ar gael gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Canolfan Eco Gorllewin Cymru.

Treftadaeth a Hanes

Sylwadau
Mae treftadaeth a hanes yn rhan bwysig o hunaniaeth yr ardal ac mae'r amrediad yn anferth - o gromlechi a thomennydd claddu i gapeli, llwybrau porthmyn a rheilffordd y Cardi Bach.

Mae diwylliant ar iaith Gymraeg yn bwysig iawn hefyd. Mae llen a barddoniaeth yn rhan hanfodol o addysg leol, ac mae digwyddiadau blynyddol yn y capeli a lleoliadau eraill yn dathlu hyn. Yn yr un modd ag y mae golygfa o bob cwr o Grymych, mae yna hefyd daflen treftadaeth i'w harchwilio hefyd. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi hyn ac mae yna ddiddordeb cynyddol i gysylltu hanes, tirwedd a thwristiaeth - un awgrym yw hyrwyddo grŵp cerdded treftadaeth.

Mae grŵp hanes bach yn cyfarfod yn rheolaidd ac maent wedi cynnal arddangosfeydd e.e. yn ystod gŵyl y Frenni. Ar hyn o bryd mae aelodau yn derbyn cefnogaeth, diolch i grant 'Arian i Bawb', i greu taflen hanes lleol a fydd yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach yn 2008. Mae cynlluniau ar y gweill i drefnu arddangosfa arall. Ystyrir y Neuadd Farchnad yn lleoliad delfrydol i arddangos hanes yr ardal ar ffurf amgueddfa barhaol a gwagle ar gyfer arddangosfeydd, dangos hen sgiliau, perfformiadau ac ati.

Mae canolfan wybodaeth treftadaeth a chelfyddyd, ac oriel arddangos yn rhan annatod o'r cynlluniau ar gyfer dyfodol y Neuadd Farchnad.

Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg sy'n helpu newydd-ddyfodiaid i'r ardal gyfathrebu a deall mwy am y diwylliant. Mae Ysgol y Preseli ac Ysgol y Frenni yn ysgolion cyfrwng Cymraeg; mae canran uchel o bobl leol yn siarad Cymraeg iaith gyntaf, ac mae gan fwy na 70% peth ymwybyddiaeth o'r iaith. Dyma destun balchder a dylid parhau i'w gofnodi a datblygu cyfleoedd diwylliannol pellach. Byddai modd hybu cyfuno'r iaith ac atgofion drwy brosiect llafar dwyieithog, yn debyg i'r hyn sydd gan Groesgoch.

Cynigion

- **Mesur y diddordeb i ffurfioli'r Grŵp Hanes Lleol** i:
  - ◊ Hyrwyddo llyfr prosiect "Crymych, y gorffennol a'r presennol"
  - ◊ Ymgymryd ag ymchwil pellach a chyhoeddi deunydd
  - ◊ Archwilio ffyrdd o 'gofnodi'r hen Grymych' e.e. cofnodi atgofion.
  - ◊ Trefnu arddangosfeydd hanes lleol a pharhau i ddigido deunydd.
- **Hysbysebu taflen newydd Crymych** sy'n cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni.
- **Annog ffurfio grŵp cerdded yn ymwneud â hanes lleol**.
- **Ceisio rhestr o nodweddion hanesyddol lleol** gan Archaeoleg Cambria sy'n cadw cofnod o Safleoedd a Chofadeiladau Hynafol - mae'n bosib y bydd ambell annisgwyl.
- **Ceisio cefnogaeth a chyngor parhaus** gan y swyddog yn PLANED sy'n gyfrifol am Ymdeimlad o Le, i ddatblygu'r cynigion hyn.
- **Gweithredu'r cynigion ar gyfer treftadaeth a thwristiaeth** a wnaethpwyd yn Astudiaeth Dichonolrwydd y Neuadd Farchnad.

Busnes a Thwristiaeth

Sylwadau

Mae yna deimlad cyffredinol y dylid cefnogi gwasanaethau, busnesau a chynhyrchwyr lleol ac mae cyfeirlyfr busnes a luniwyd

gan grŵp lleol wedi helpu i amlygu'r amrywiaeth sy'n bodoli yng Nghrymych a'r cylch. Bu Cylch Busnes Crymych sy'n cysylltu busnesau lleol yn weithredol yn ystod y blynyddoedd diwethaf (http://busnes-crymych.com/)

Mae siopau'r pentref sy'n cynnwys siop groser a phopty ar y cyd, bwyd iach/siop lysiau, cigydd, fferyllfa, siop nwyddau trydanol, siop anrhegion, gwerthwr blodau a siop trin gwallt, yn gwasanaethu'r gymuned yn dda. Mae'r stryd yn edrych yn dda, gyda ffryntiau'r siopau yn doreth o arddangosfeydd lliwgar. (Trefnwyd cwrs hyfforddi llwyddiannus iawn sef 'Winning Windows' yn 2007). Agorwyd caffe newydd sydd yn annog ymwelwyr i alw mewn ac archwilio'r siopau sydd gennym i'w gynnig.

Mae'r banciau a rhai allfeydd traddodiadol fel y gwerthwr nwyddau haearn bellach wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae yna deimlad cyffredin yn yr ardal bod busnesau mawr yn bygwth gwthio'r busnesau lleiaf allan. Ystyrir archfarchnadoedd yn fygythiad i'r siopau lleol. Mae hyn yn annog nifer o bobl i siopa'n lleol a chefnogi cyflenwyr a busnesau.

Yn ogystal â siopau, mae busnesau Crymych yn amrywio o'r tafarn, gorsaf betrol a garej, i fentrau cartref, adeiladwyr, crefftwyr ac ysgolion gyrru yn ogystal â busnesau mawr fel cludwyr nwyddau Frenni, allfeydd peiriannau a pheirianyddion amaethyddol, cwmni gwydr a negeswyr. Gwnaethpwyd ymdrechion gan y cyngor sir i annog mwy o fusnesau drwy ddatblygu unedau diwydiannol bach ger tir y farchnad a'r hen orsaf rheilffordd. Mae nifer o grefftwyr, cynhyrchwyr a busnesau electronig wedi manteisio arnynt erbyn hyn. Dengys y holiadur cymunedol bod 6 o'r rhai a wnaeth ymateb yn berchen ar neu reoli busnes yn y gymuned. Efallai byddai 1 yn chwilio am adeilad newydd.

Mae ffermydd a phlanhigfeydd ar gyrion yr ardal yn cynnig cynnyrch cartref, gan gynnwys cynnyrch llaeth, cig a llysiau. Dylid cefnogi amaethwyr a chynhyrchwyr i ddarparu cynnyrch lleol i ymwelwyr drwy siopau a chaffes. Awgrymwyd cynnal marchnad amaethwyr neu farchnad wledig yn rheolaidd ond nid ar draul adwerthwyr lleol. Mae poblogrwydd Gŵyl Fwyd y Frenni yn awgrymu y byddai'n ymarferol i'w chynnal yn rheolaidd. Ymhlith syniadau eraill mae blychau o gynnyrch lleol ar gyfer lletyau hunanarlwyo i annog ymwelwyr i archwilio opsiynau lleol a chadw'r llif arian yn lleol felly'n buddio'r economi lleol.

Mae yna nifer gynyddol o fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth gan gynnwys lletyau gwely a brecwast, gwestai, safleoedd carafannau a lletyau hunanarlwyo. Archwilir hefyd i farchnadoedd penodol fel gwyliau cerdded a marchogaeth ac mae asiantaethau fel PLANED yn cefnogi hyn drwy gynnal cyrsiau'n ymwneud â darparu lletyau, hyrwyddo cynnyrch lleol a hyrwyddo nodweddion gorau'r ardal, wedi eu teilwra i helpu darparwyr i ddarparu'r profiad gorau posib i ymwelwyr.

Dyna paham mae angen y ganolfan groeso gorau posib. Gorau po hiraf y bydd ymwelwyr am aros yng Nghrymych, y mwyaf byddant yn debygol o wario yn y siopau lleol, y tafarn(gweler y llun isod) a'r caffes, felly'n hybu'r economi lleol a'i gwneud yn le mwy cynaliadwy i fyw.

Mae holl gynigion y Cynlluniau Gweithredu yn cysylltu, ac yn cefnogi'i gilydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd gwych sydd gan Grymych i'w gynnig. Mae gwelliannau amgylcheddol, dehongli hanes a chynnig profiad da, oll yn helpu.

Mae yna ddiddordeb go iawn i ddatblygu mwy o fusnesau cynaliadwy, cyfleoedd ar gyfer twristiaeth drwy'r flwyddyn a gwneud y mwyaf o'r amgylchedd a'r bwyd arbennig a ddarperir yn ogystal â nodweddion fel llwybrau'r porthmyn. Mae Gŵyl Fwyd y Frenni erbyn hyn yn ddigwyddiad blynyddol poblogaidd iawn, sy'n annog ymwelwyr i gynllunio'u gwyliau o'i chwmpas.

Byddai darparu gweithgareddau newydd yn y gymuned hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i ymwelwyr fwynhau'r ardal, yn enwedig adeg tywydd gwlyb. Fe allai adfywiad y Neuadd Farchnad gynnig nid yn unig gwybodaeth i ymwelwyr, ond hefyd cyfleuster ar gyfer amgueddfa fach, arddangosfa crefftau lleol ac arddangosfeydd celf. Gallai ymwelwyr hefyd gael y cyfle i flasu bwyd lleol, rhoi cynnig ar wehyddu neu weld eu plant yn ymuno â gweithdai chwarae.

Cydnabyddir y pwysigrwydd o gydbwyso mentrau a gwarchod yr amgylchedd. Rhaid i fusnesau a thwristiaeth fod yn gynaliadwy er mwyn creu cymuned gadarn sy'n ffynnu ar gyfer y dyfodol. Mae strategaethau cenedlaethol fel Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod bod amgylchedd o ansawdd yn bwysig iawn i ddenu ymwelwyr wrth sicrhau bod datblygu twristiaeth yn gynaliadwy a chymunedau'n parhau'n gadarn.

Cynigion

- **Annog pobl leol i siopa'n lleol** a chefnogi cynhyrchwyr.
- **Cefnogi'r grŵp busnes lleol** i barhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys gwyliau arbenigol fel gwyliau cerdded a marchogaeth.
- **Ystyried y potensial ar gyfer cynnal marchnad amaethwyr** neu farchnad wledig yn rheolaidd
- **Cefnogi digwyddiadau pellach** fel gŵyl y Frenni.
- **Gweithio gyda grŵp gweithgareddau i ddatblygu rhaglen integredig o farchnadoedd, gwerthu crefftau** ac arddangosfeydd ac ati y bydd pobl leol ac ymwelwyr yn elwa

ohonynt ac a fydd yn hybu'r economi yn ogystal â bywyd cymunedol.

- **Ystyried y potensial ar gyfer gwneud y mwyaf o gyfleoedd bwyd a chynnyrch lleol,** gan gynnwys ffermydd sydd ar y cyrion, darparu cyfleusterau prosesu bwyd a datblygu nod cynnyrch lleol.
- **Gweithredu'r cynigion ar gyfer treftadaeth a thwristiaeth** a wnaethpwyd yn Astudiaeth Dichonolrwydd y Neuadd Farchnad.
- **Hostel leuenctid –** ymchwilio i'r posibilrwydd o leoli Hostel leuenctid yng Nghrymych mewn cysylltiad ag atgyfodi prosiect Corlan Ysgol y Preseli a gynigai lety ar gyfer (a) y pobl ifainc o ardaloedd Cymraeg a fynnai fynychu ysgol ddwyieithog mewn ardal Gymraeg, a (b) cynnal cyrsiau a fyddai'n cyflwyno treftadaeth a diwylliant yr ardal.

Traffig, Trafnidiaeth a Phriffyrdd

Sylwadau

Mae gan drigolion nifer o bryderon ynghylch traffig a diogelwch ar y ffyrdd. Maent yn derbyn bod traffig sylweddol yn rhan o fywyd gwaith yr ardal ond teimlant fod angen mannau croesi a llwybrau cerdded mwy diogel.

Ymhlith cynigion eraill mae darparu palmentydd o ansawdd, gyda chyrbau isel ar gyfer cadeiriau gwthio a sgwteri trydan, a fyddai'n helpu pobl o bob oed.

Byddai mesurau o'r fath yn helpu annog plant i gerdded i'r ysgol, felly'n cynnig manteision personol a gostwng allyriadau ceir. Dylid hefyd weithredu cyfyngiadau parcio er mwyn annog pobl i barcio'n gyfrifol, a byddai gwell arwyddion yn helpu hefyd.

Mae yna ddiddordeb i ymestyn y palmant sydd yn rhedeg tua'r gogledd, allan o bentref Crymych *(gweler y llun uchod)* drwodd i Flaenffos, ynghyd â darparu palmant rhwng Crymych a Hermon.

Byddai hyn yn annog ymarfer corff rheolaidd bob adeg o'r flwyddyn. Byddai hefyd yn cysylltu'r cymunedau, felly'n galluogi disgyblion i gyrraedd yr ysgolion yn ddiogel heb orfod defnyddio car neu fws, trigolion i ymweld â'i gilydd am resymau cymdeithasol a defnyddio'r siopau, y ganolfan hamdden neu fynychu dosbarthiadau yng Nghrymych. Byddai hefyd o fudd i ymwelwyr sydd am gerdded allan o Grymych i gyrchu hawliau tramwy cyhoeddus.

Roedd y sawl a gymerodd rhan yn y gweithdai yn awyddus iawn i ddatblygu llwybrau beicio, gan gynnig 'llwybr beicio - at ddefnydd dyddiol a hamdden.' Byddai modd sefydlu llwybr beicio amlddefnydd drwy ddynodi llwybrau ar gyfer cerdded a beicio. Awgrym arall oedd defnyddio'r hen drac rheilffordd fel llwybr beicio. Byddai hyn yn golygu trafod gyda thirfeddianwyr oherwydd bod rhannau o'r trac wedi eu lleoli yn y caeau amgylchynol. Cyflawnwyd prosiect o'r fath mewn mannau eraill ee Llwybr 'Tarka Trail' yn Nyfnaint. Byddai angen gosod cod ymarfer yn ei le ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Gallai hyn gysylltu â syniadau twristiaeth gynaliadwy (*gweler adran Busnes a Thwristiaeth*) i annog pobl i fwynhau cefn gwlad mewn modd sydd ddim yn llygru.

Mae yna faes parcio di-dâl sydd â llwybr trwodd i'r stryd fawr. Mae parcio a mynediad hawdd i siopau yn annog pobl i alw heibio a mwynhau ymweliadau hamddenol. Mae agosrwydd y farchnad anifeiliaid yn atyniad i nifer o ymwelwyr a fyddai'n ei chydnabod yn rhan o'r amgylchedd gwledig a phrofiad dysgu i blant, felly'n cysylltu'r amgylchedd i gynhyrchu bwyd. Byddai gwell arwyddion, raciau beic a bwrdd dehongli newydd sydd â chyfleuster i ddosbarthu taflenni Crymych, hefyd yn ychwanegu at gyfleusterau'r maes parcio.

Mae gan Grymych wasanaeth bws rhesymol, gyda'r prif lwybr rhwng Arberth ac Aberteifi. Mae'r rheini sy'n gwneud siwrneiau lleol byr, neu ymwelwyr sy'n bwriadu treulio'r dydd yn cerdded, yn elwa o fws cymunedol y Ddraig Werdd. Mae yna sawl safle bws yng

Nghrymych a thu allan i'r pentref, gyda chysgodfa dda ger y Neuadd Farchnad (*darlun)*

Adnabuwyd y rhai a wnaeth ymateb i'r holiadur cymunedol y car fel bron yr unig ffordd o drafnidiaeth i'w ddefnyddio i gyrraedd cyfleusterau meddygol megis yr ysbyty, meddyg neu ddeintydd. Er hynny, cerddodd rhai ohonynt yn aml i'r ganolfannau cymunedol a hamdden, swyddfa'r post ac ar gyfer rhan o'u siopa.

Cynigion

- Gweithio gyda Chyngor y Gymuned a Chyngor Sir Penfro i:

Ymgymryd ag Astudiaeth Rheolaeth Traffig mewn ymgynghoriad â'r Gymuned i asesu:

- ◊ **Yr angen am arwyddion mwy (dwyieithog)**
- ◊ **Mannau croesi i gerddwyr** ee canol y pentref a ger yr ysgol**.**
- ◊ **Palmentydd o ansawdd**, gyda chyrbau isel ar gyfer cadeiriau gwthio a sgwteri trydan, felly'n helpu pob oed ac annog plant i gerdded i'r ysgol.
- ◊ **Ymchwilio** i'r dichonolrwydd o greu palmant yr holl ffordd i Flaenffos.
- ◊ **Ymchwilio** i'r dichonolrwydd o greu palmant yr holl ffordd i Hermon.

- **Atgyfnerthu cyflymder traffig lleol a chyfyngiadau parcio** yn y pentref.
- **Asesu'r potensial ar gyfer mwy o lwybrau beicio/ amlddefnydd, gan gynnwys yr hen drac rheilffordd**.
- **Ystyried gwelliannau i'r maes parcio, fel raciau beic a phaneli dehongli**.

Tai a Gwasanaethau

Sylwadau

Mae pobl leol yn teimlo y dylai unrhyw dai a adeiledir yn y dyfodol ddarparu ar gyfer dau grŵp oedran. Ystyrir llety cysgodol ar gyfer yr henoed yn flaenoriaeth yn ogystal â thai cost isel ar gyfer pobl ifanc. Byddai hyn yn eu hannog i aros yn yr ardal a defnyddio'u sgiliau i hybu'r economi lleol. Bu'r ymatebion i'r holiadur cymunedol yn awgrymu y

byddai aelodau o 9 teulu yn chwilio am dai newydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Byddai 4 ohonynt yn chwilio am gartrefi gwarchodol ar gyfer yr henoed a byddai 4 arall eisiau prynu cartref preifat/fforddiadwy.

Fe wnaeth y rheini a gymerodd rhan yn y gweithdai grybwyll prosiect tai ar gyfer pobl hŷn, gan sicrhau gofal meddygol ar eu cyfer a ffocws cymdeithasol hefyd. Gallai hyn gorffori canolfan ddydd integredig ar gyfer yr henoed, yn darparu cyfleusterau cymdeithasol a lles. Byddai'n cael ei adeiladu yn ôl egwyddorion adeiladu cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy. Mae enghreifftiau da yn bodoli eisoes - mae gan yr ysgol gynradd system i gasglu dŵr glaw a system wresogi sy'n defnyddio peledi coed.

Mae cyfranogiad y gymuned adeg cyfnod ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol yn bwysig. Fe fydd yn darparu cyfleoedd i nodi safleoedd posibl ar gyfer tai fforddiadwy. Mae yna lyfryn da a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dwyn yr enw 'CDLl Cymru – Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol'. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad y gymuned.

Mae gan Grymych wasanaethau da sy'n cynnwys swyddfa bost, fferyllfa, canolfan iechyd, llyfrgell a chanolfan i deuluoedd sy'n cael eu defnyddio'n fynych. Mae yna hefyd orsaf heddlu, gorsaf dân a chyfleuster 'ymateb cyntaf'. Mae yno hefyd y blychau ffôn, blychau post, safleoedd bws a chyfleusterau cyhoeddus arferol.
Mae pobl leol am y diweddaraf o gyfleusterau meddygol a chrybwyllwyd hyd yn oed sefydlu ysbyty lleol.

Cynigion

- Annog Cyngor y Gymuned i:
  - ◊ **Gyhoeddi cyfnod ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol**
  - ◊ **Cyfarfod â'r Galluogwr Tai Gwledig ac ymgymryd ag Arolwg Anghenion Tai** i asesu'r galw am gartrefi i bobl hŷn a'r rheini sy'n prynu tai am y tro cyntaf
  - ◊ **Archwilio'r cynnig ar gyfer canolfan ddydd integredig a thai i'r henoed ar y cyd.**
  - ◊ **Archwilio'r technegau adeiladu cynaliadwy** a system

wresogi effeithlon ac ati.

◊ **Defnyddio a chefnogi gwasanaethau lleol**.

◊ **Mae angen cynnal astudiaeth ar gyfer diweddaru'r cyfleusterau meddygol.**

Gweithredu / Gweithgorau

Mae modd datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu'n effeithiol drwy'r Gymdeithas Gymunedol sydd erbyn hyn ar ei newydd gwedd. Mae yna frwdfrydedd i ddatblygu'r cynigion ar gyfer y Neuadd Farchnad a phrosiectau eraill. Byddai modd sefydlu gweithgorau er mwyn symud y cynigion yn eu blaen - gan adrodd yn ôl i'r Gymdeithas Gymunedol gyfan - mewn ymgynghoriad â Chyngor y Gymuned i gysylltu â'r partneriaid allweddol megis Cyngor Sir Penfro.

Gallai'r Gweithgorau ganolbwyntio ar:

- **Y Gymuned** – cyfleusterau, gweithgareddau a chyfathrebiadau.
- **Yr Amgylchedd** – gan gynnwys hawliau tramwy, ynni a gwastraff.
- **Treftadaeth, hanes a diwylliant**.
- **Mentrau Cymunedol, Busnes a Thwristiaeth**
- Gweithio gyda Chyngor y Gymuned ar:

◊ **Drafnidiaeth, Traffig a Phriffyrdd**

◊ **Tai a Gwasanaethau**.

Mae'n bwysig bod y grwpiau yn:

- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytûn ac yn adrodd i'r Gymdeithas Gymunedol
- Gweithio gyda grwpiau presennol, gan gynnwys Cyngor y Gymuned ac asiantaethau.
- Cyfarfod yn rheolaidd – o leiaf pedair gwaith y flwyddyn.
- Hysbysu'r gymuned ehangach ynghylch unrhyw gynnydd a wneir.

  Bydd PLANED a mudiadau sy'n bartneriaid yn cynnig cymorth, cyngor a chyllid i gynorthwyo a datblygu cynigion y Cynllun Gweithredu.